GRŴP TAI CADARN

POLISI CYFLE CYFARTAL

...cefnogi pobl a chymunedau...

EIN HYMRWYMIAD

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i weithio tuag at gyfle cyfartal er mwyn sicrhau ein bod yn cael ac yn cyflwyno gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn deg i bob rhan o'r gymuned. Byddwn yn ymdrechu i drin pawb yn gyfartal ac yn deg, p'un a ydynt yn:

- ⇒ Denantiaid a chwsmeriaid
- ⇒ Pobl sy'n ceisio cyflogaeth neu sydd eisoes wedi'u cyflogi gan y Grŵp.
- ⇒ Y cyhoedd
- ⇒ Contractwyr a phartneriaid sy'n darparu neu'n derbyn gwasanaethau

Nod ein polisi cyfle cyfartal yw sicrhau na fydd unrhyw unigolyn yn cael triniaeth sy'n llai ffafriol ar sail hil, cenedligrwydd, cefndir ethnig, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu unrhyw nodwedd amherthnasol arall. Ei nod hefyd yw sicrhau nad oes amodau na gofynion na ellir profi eu bod wedi'u cyfiawnhau.

RHWYMEDIGAETHAU CYFREITHIOL

Wrth weithredu polisi bydd y Grŵp yn ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol a'r codau ymarfer cysylltiedig:

- ⇒ Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- ⇒ Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (a'i diwygiadau o 2000 a 2003) ac yn benodol, Cod Ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar Gydraddoldeb Hiliol ym maes Tai 2006
- ⇒ Rheoliadau Crefydd neu Gred 2005
- ⇒ Rheoliadau Cyfeiriadedd Rhywiol 2003
- ⇒ Rheoliadau Oed 2006
- ⇒ Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- ⇒ Deddf Hawliau Dynol 1988
- ⇒ Deddf Cyflog Cyfartal 1970 (diwygiwyd 1983)

GRŴP TAI CADARN

Tŷ Cadarn
5 Village Way
Tongwynlais
Caerdydd
CF15 7NE

Ffôn: 02920 629 364
Ffacs: 0870 242 0674
E-bost:
enquiries@cadarn.co.uk

DARPARU TAI

Ymagwedd y Grŵp tuag at ddarparu tai yw y bydd yn ceisio gwasanaethu ei holl gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid yn gyfartal ac yn deg a sicrhau nad yw ei bolisïau a'i weithdrefnau yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp neu unigolyn yn fwriadol neu'n anfwriadol am resymau na ellir eu cyfiawnhau

Diwallu Anghenion Tai

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i bolisïau tai teg. Mae hyn yn cynnwys asesiad gwrthrychol o anghenion tai pob ymgeisydd a sicrhau y caiff yr holl breswylwyr eu trin yn deg, ynghyd ag ymateb sensitif i anghenion arbennig grwpiau ac unigolion penodol. Cymerir y camau canlynol:

⇒ Cysylltu ag awdurdodau lleol a chymunedau lleol i asesu a blaenoriaethu anghenion cymunedau lleol.
⇒ Cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu Strategaethau Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yr awdurdod lleol a mabwysiadu'r pwyntiau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Cydraddoldeb.
⇒ Adolygu ein cyfraniad yn rheoliadd i ddiwallu anghenion y cymunedau lleol.
⇒ Datblygu gwaith partneriaeth ymhellach gyda sefydliadau arbenigol a sefydliadau yn y gymuned.

Datblygu a Chynnal

Wrth ddatblygu a chynnal tai nod y Grŵp yw ymateb i ystyriaethau cyfle cyfartal cyffredinol a'r rhai sy'n benodol i brosiect neu ddatblygiad unigol. I gyflawni hyn, cymerir y camau gweithredu canlynol:

⇒ Datblygu ac ailwampio tai sy'n diwallu anghenion y gymuned y gweithiwn ynddi.
⇒ Cadw cofnod o bob eiddo a addaswyd i'w defnyddio gan bobl sydd â gofynion penodol fel y gellir eu cydweddu i ymgeiswyr addas yn gyflym.
⇒ Gweithio i hyrwyddo cymunedau cytbwys a chynaliadwy.
⇒ Datblygu dulliau priodol ar gyfer ymgynghori â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lle y bo'n briodol.
⇒ Ceisio adborth ar foddhad o ran cynllun a diwyg tai a ph'un a ydynt yn diwallu anghenion pob rhan o'r gymuned.

Hygyrchedd at Dai

Caiff targedau ar gyfer gosod tai eu pennu a chynhelir gwaith monitro ymgeiswyr, dyraniadau ac enwebiadau o ran materion ethnig. Caiff canlyniadau eu monitro'n rheolaidd. I gyflawni hyn, cymerir y camau gweithredu canlynol:

⇒ Sicrhau cydraddoldeb mynediad i dai drwy bolisïau dyrannu a gosod teg.
⇒ Datblygu a chynnal cysylltiadau â thrawsdoriad eang o grwpiau a sefydliadau yn y gymuned ehangach.
⇒ Cyhoeddi gwybodaeth am fynediad i dai sy'n hygyrch i bawb.
⇒ Gosod a monitro targedau ar gyfer mynediad at dai sy'n adlewyrchu anghenion lleol.

Y GWASANAETH TAI

Cefnoga'r Grŵp hawl pob preswylydd i fyw yn eu cartref heb unrhyw fath o aflonyddwch. I gyflawni hyn, cymerir y camau gweithredu canlynol:

⇒ Sicrhau bod pob polisi tai yn adlewyrchu anghenion yr holl breswylwyr gan gydnabod amrywiaeth y cymunedau lleol a meithrin cydberthnasau da rhwng cymunedau.
⇒ Gweithredu polisi o drin pob achos o aflonyddwch fel mater difrifol y rhoddir blaenoriaeth iddo a monitro nifer yr achosion o aflonyddwch a gofnodir.
⇒ Hyrwyddo'r broses o gynnwys preswylwyr i bawb ar sail nad yw'n gwahaniaethu.
⇒ Darparu gwasanaethau sensitif sy'n cydnabod gwahaniaethau o ran anghenion, iaith a diwylliant.
⇒ Ceisio dewisiadau ac anghenion tenantiaid, ymgeiswyr a chwsmeriaid eraill o ran iaith a chymorth i bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw.
⇒ Darparu gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lle y nodir bod hynny'n angenrheidiol.
⇒ Sgrinio tenantiaid ac ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am

CONTRACTWYR AC YMGYNGHORWYR

Ein nod yw sicrhau lle rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol drwy ddefnyddio contractwyr ac ymgynghorwyr bod y cyfleoedd hynny yn agored i bawb. I gyflawni hyn, cymerir y camau gweithredu canlynol:

⇒ Gweithredu arferion prynu a chaffael nad ydynt yn gwahaniaethu a sicrhau bod contractwyr ac ymgynghorwyr yn cydymffurfio â pholisïau cydraddoldeb y Grŵp ac nad ydynt yn gwahaniaethu wrth weithredu eu contractau.
⇒ Gofyn am fanylion polisïau cyfle cyfartal contractwyr ac ymgynghorwyr a sicrhau bod meini prawf dethol yn gofyn i bolisïau fod mewn grym.
⇒ Bydd y dewis o gontractwyr ac ymgynghorwyr yn deg ac yn anwahaniaethol.
⇒ Hyrwyddo cydraddoldeb yn arferion cyflogaeth contractwyr ac ymgynghorwyr.
⇒ Cefnogi mentrau lleol sydd â'r nod o hyrwyddo'r broses o gyflogi ymgynghorwyr neu gwmnïau sy'n eiddo i bobl sy'n perthyn i gymunedau neu grwpiau y gwahaniaethir yn eu herbyn.

PARTNERIAETHAU

Mewn partneriaeth â sefydliadau eraill byddwn yn sicrhau y gwneir trefniadau ar sail cyfle cyfartal a bod y trefniadau hynny yn adlewyrchu'r angen i gydymffurfio â chyfleoedd cyfartal a monitro perfformiad mewn perthynas a hyn.

I gyflawni hyn, cymerir y camau gweithredu canlynol:

⇒ Dewis partneriaethau mewn ffordd deg ac anwahaniaethol.
⇒ Bydd sefydliadau partner yn cydymffurfio â pholisïau cyfle cyfartal.
⇒ Rhoddir cefnogaeth i fentrau lleol a sefydliadau partner sy'n cynrychioli ac yn cynnwys pobl o grwpiau neu gymunedau y gwahaniaethir yn eu herbyn.

GWEITHDREFNAU CWYNO

Bydd y weithdrefn gwyno yn hygyrch i'r cyhoedd, tenantiaid a chwsmeriaid eraill. Caiff cwynion gan denantiaid eu monitro yn ôl oedran, anabledd, ethnigrwydd a rhyw.

CYFLOGAETH

Creda'r Grŵp y dylai'r gweithlu, fel cyflogwr, adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Nod y Grŵp fydd sicrhau cyfle teg a chyfartal ym mhob maes o gyflogaeth a darparu amgylchedd gwaith diogel sy'n gwerthfawrogi hunaniaeth a diwylliant pob un o gyflogeion y Grŵp. I gyflawni hyn, cymerir y camau gweithredu canlynol:

Recriwtio a Dethol

⇒ rhaid llunio swydd ddisgrifiad a manyleb person sy'n amlinellu rhinweddau, sgiliau, gwybodaeth a rhinweddau personol dymunol a hanfodol ar gyfer pob swydd wag a'u rhoi i bob darpar gyflogai
⇒ rhaid i wybodaeth am swyddi gwag fod yn hygyrch, caiff swyddi uwch eu hysbysebu'n fewnol ac yn allanol
⇒ dylid rhoi manylion y broses ddethol i bob ymgeisydd ymlaen llaw
⇒ rhaid seilio meini prawf y rhestr fer ar y fanyleb person
⇒ rhaid gwneud pob penderfyniad dethol ar sail teilyngdod
⇒ bydd pob hysbyseb swydd yn hysbysu ymgeiswyr bod y Grŵp yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal

Hyfforddiant a Datblygiad

⇒ caiff yr holl gyflogeion eu cefnogi i ymgymryd â'r hyfforddiant a'r datblygiad sydd ei angen arnynt i gyflawni a chynnal safon uchel o berfformiad a chânt eu hannog i gyflawni eu potensial llawn
⇒ bydd yn ofynnol i bob aelod o staff, ac yn arbennig y rhai sy'n darparu gwasanaethau i gwsmeriaid a'r rhai sy'n rhan o'r broses recriwtio, gael hyfforddiant Cyfle Cyfartal. Bydd hyfforddiant Cyfle Cyfartal ar gael i bob aelod o staff ac aelodau'r Bwrdd.

Aflonyddwch yn y Gwaith

⇒ Mae aflonyddwch neu fwlio o fewn y gweithle yn annerbyniol a gall unrhyw gyflogai sy'n teimlo eu bod yn dioddef aflonyddwch gwyno heb ofni y cânt eu herlid neu eu hynysu.
⇒ Mae gan y Grŵp ddatganiad Aflonyddwch a Bwlio yn y Gwaith sy'n rhoi manylion pellach am fwlio ac aflonyddwch a'r broses a ddefnyddir i fynd i'r afael â chwynion o'r fath
⇒ Caiff achosion o aflonyddwch a bwlio eu monitro er mwyn sicrhau y caiff unrhyw arferion gwahaniaethol eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy.

Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno

⇒ Caiff honiadau o wahaniaethu annheg, aflonyddu a bwlio cyflogeion, tenantiaid, cwsmeriaid neu aelodau o'r cyhoedd eu trin yn ddifrifol iawn a chânt eu harchwilio'n drylwyr ac yn brydlon.
⇒ Caiff achosion o wahaniaethu ac aflonyddu ar sail rhyw, hil neu fathau eraill o aflonyddwch eu trin fel materion disgyblu ac eir i'r afael â hwy o dan y weithdrefn ddisgyblu.
⇒ Cymerir gofal arbennig i ymdrin â phob cwyn o ran gwahaniaethau, erlid, bwlio neu aflonyddu yn effeithiol. Mae gan bob cyflogai yr hawl i geisio iawndal am eu cwynion a bydd y Grŵp yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o hyn ac y rhoddir copïau o'r gweithdrefnau aflonyddwch a chwyno i bob cyflogai.

Monitro Arferion Cyflogaeth

Bydd y Grŵp yn monitro ei arferion cyflogaeth er mwyn sicrhau y caiff y Polisi Cyfle Cyfartal ei weithredu drwy gasglu, dadansoddi a gweithredu ar wybodaeth a thrwy ddarparu adroddiadau perthnasol i'r Byrddau a phennu targedau addas.

⇒ Arolwg Staff Blynyddol - Ceisia'r arolwg staff blynyddol ymatebion i gwestiynau ynglŷn â chyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth.

⇒ Recriwtio a Dethol - Paratoir adroddiadau staffio a fydd yn cynnwys gwybodaeth cyfle cyfartal am recriwtio, dethol a throsiant a pherfformiad staff yn erbyn targedau a chânt eu rhoi i'r Byrddau bob chwarter. Caiff recriwtio i'r Bwrdd ei fonitro a gosodir targedau. Rhoddir adroddiad i'r Byrddau yn flynyddol. Bydd y Grŵp yn darparu gwybodaeth fonitro gynhwysfawr ar geisiadau am swyddi ac aelodaeth o'r Bwrdd ac achosion o recriwtio, yn ogystal ag am gyflawni targedau, i'r Byrddau bob dwy flynedd.

⇒ Bwlio ac Aflonyddwch - Bydd y Grŵp yn monitro cwynion ffurfiol am fwlio ac aflonyddwch yn flynyddol a bydd yn sicrhau y gall y camau monitro nodi unrhyw arferion gwahaniaethol.

⇒ Disgyblu a Chwynion - Bydd y Grŵp yn monitro achosion o ddisgyblu a chwynion yn flynyddol a bydd yn sicrhau bod y camau monitro yn nodi unrhyw arferion gwahaniaethol.

CYFRIFOLDEB DROS Y POLISI

Mae gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae wrth greu hinsawdd sy'n cefnogi cyfle cyfartal. Mae gan bob aelod o staff ddyletswydd i sicrhau bod eu hymddygiad personol yn cydymffurfio â'r polisïau a'r codau ymddygiad. Rhoddir copi o'r polisi hwn i bob cyflogai a disgwylir iddynt gydymffurfio ag ef. Mae gan gyflogeion gyfrifoldeb personol dros gymhwyso Polisi Cyfle Cyfartal y Grŵp, sy'n cynnwys eu triniaeth o aelodau o'r cyhoedd a chyflogeion.

Bydd Cyfarwyddwyr a rheolwyr llinell yn gyfrifol am weithredu'r polisi o fewn y sefydliad ac am sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r polisi ac yn gweithredu'n unol ag ef, yn ogystal â bod trefniadau monitro addas mewn grym.

Bydd y Prif Weithredwr yn gweithredu fel Eiriolwr Cydraddoldeb ar gyfer y Grŵp a bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros y polisi ac am sicrhau cysondeb ar draws y Grŵp o ran yr holl arferion ac wrth fonitro canlyniadau'r polisi hwn. Defnyddir Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i gydlynu'r camau sy'n angenrheidiol i ateb gofynion y polisi hwn.

CYFATHREBU

Hysbysir pob cyflogai o'r polisi hwn a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag ef.

Bydd pob Rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai y maent yn eu rheoli yn ymwybodol o'r polisi ac y tynnir sylw recriwtiaid newydd at y polisi fel rhan o'r broses sefydlu.

Bydd y polisi hwn hefyd ar gael i'r cyhoedd, tenantiaid, cwsmeriaid, contractwyr a darparwyr gwasanaeth ar gais neu er mwyn egluro safbwynt y Grŵp o ran cyfle cyfartal a gwahaniaethu. Bydd y polisi hwn ar gael ar wefan y Grŵp.